

Polisi E ddiogelwch

Cyflwyniad

Pwrpas y polisi yma yw gwneud yn siŵr bod holl staff, athrawon, llywodraethwyr a phlant yn deall a chytuno gyda dull yr ysgol o ddelio gyda e-ddiogelwch.

Mae'r polisi yn perthyn i bolisiâu eraill gan gynnwys Cwricwlwm TGCh, Defnydd o'r We, Atal Bwlio, Amddiffyn Plant ac Iechyd a Diogelwch.

Cyfrifoldeb Staff yr ysgol

Mae technoleg gwybodaeth yn datblygu ar ras, a gall hynny beri i staff fod yn ansicr ynghylch yr arfer gorau neu sut i drafod materion e-ddiogelwch gyda disgyblion.

Mae ennyn ymddiriedaeth rhwng disgyblion a staff yr ysgol yn hanfodol i addysg y plant, ond o bryd i'w gilydd gall disgyblion deimlo'n anghyffyrddus i drafod rhai materion gyda staff. Nid peth newydd yw hyn, ond mae wedi dod i'r amlwg drwy well ymwybyddiaeth o ffaeleddau dyn a mwy o barch tuag at blant. Yn genedlaethol mae'r Swyddfa Gartref wedi sefydlu Canolfan Cam-fanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOP) i "ddiogelu profiadau plant ar-lein a mynd ati yn ddiwyro i ddod o hyd i droseddwy'r a'u dwyn o flaen eu gwell".

Mewn unrhyw ddiwydiant mae aelod o staff sy'n mynd yn groes i gyngor ar ddiogelwch neu'n defnyddio'r e-bost neu'r Rhyngwyd at ddibenion amhriodol, yn agored i gael ei ddisgyblu.

Mae staff sy'n rheoli'r systemau hidlo neu'n monitro'r defnydd a wneir o TGCh yn ysgwyddo cryn gyfrifoldeb, a rhaid eu goruchwyllo'n briodol. Rhaid i'r gweithdrefnau ddiffinio sut i ddwyn defnydd amhriodol neu ddefnydd anghyfreithlon o'r TGCh i sylw'r uwch reolwyr. Rhaid i'r staff fod yn ymwybodol o'r peryglon iddynt hwy eu hunain wrth reoli'r defnydd a wneir o TGCh, megis wrth edrych ar ddelweddu amhriodol i ymchwilio i'w tarddiad, a sicrhau bod mesurau diogelwch priodol yn eu lle i ddiogelu eu hunain.

Rhaid dwyn unrhyw honiad o ymddygiad amhriodol i sylw'r uwch reolwyr ac ymchwilio i'r achos yn ofalus iawn - fe all fod esboniad cwbl ddiniwed i'r ymddygiad dan sylw.

Mae'r e-bost, anfon negeseuon testun a negeseua sydyn, i gyd yn sianeli ychwanegol o gyfathrebu rhwng staff a disgyblion, a gall ymddygiad amhriodol ddiwydd, neu gall y cyfathrebu gael ei gamdehongli. Bydd staff o bosibl yn defnyddio gallu'r dechnoleg i adnabod y sawl a anfonodd negeseuon amhriodol. Mae rhai ysgolion yn darparu ffonau ar gyfer staff a disgyblion i gysylltu â'i gilydd er mwyn diogelu staff rhag cael eu cyhuddo ar gam.

Negeseuon Pwysig i Ddisgyblion

Er gwaethaf y mesurau diogelwch yn yr ysgolion, mae mynd ar y rhyngwyd heb unrhyw gyfyngiadau bellach yn rhan o fywyd bob dydd llawer iawn o blant. Mae prosesau hawdd i uwchlwytho deunydd i'r we yn golygu bod mwy o berygl i blant. Mae profiad gennym eisoes o'r ysgolion cynradd lleol fod plant ifance yn defnyddio safleoedd rhwydweithio cymdeithasol yn eu cartrefi megis Facebook a Snapchat, sy'n caniatáu i blant lunio cyfrif a chreu gwefan mewn munudau. Nid yw gwybodaeth a roddir gan ddefnyddwyr yn cael ei wirio, a phrin iawn yw'r mesurau diogelwch.

Byddwn yn cynghori ein disgyblion drwy ddweud wrthynt:

- Os yw un o'ch ffrindiau, neu rywun hŷn, yn dweud wrthyfych am safle y dylech edrych arno, meddyliwch yn galed.
- Os yw rhywun yn anfon cyswllt atoch, peidiwch â'i agor oni bai eich bod yn siŵr ei fod yn ddiogel.
- Os ydych yn pryderu, dywedwch wrth athro neu athrawes neu oedolyn yn eich teulu.
- Ni ddylai disgyblion lanlwytho lluniau neu fideos ohonynt hwy eu hunain neu ddisgyblion eraill.

- Rhaid iddynt beidio â chyhoeddi gwybodaeth bersonol megis manylion am leoliad neu fanylion cysylltu.
- Dylid cynghori disgyblion i ddefnyddio enw ffug lle mae'n hanfodol iddynt logio ar safleoedd.

Grwpiau agored i niwed

Mae nifer fawr o ddisgyblion yn defnyddio dyfeisiau symudol. Mae mwy a mwy ohonynt yn defnyddio ffonau symudol sydd â chyswllt â'r rhyngwrwyd, a hynny o fewn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol er y nodir yn mholisi ffonau symudol yr ysgol nad oes caniatad iddynt ddefnyddio ffon symudol yn yr ysgol. Y rhai sydd fwyaf cyfarwydd â defnyddio TGCh yw'r rhai mwyaf agored i niwed. Y plant sydd â sgiliau cymdeithasol gwael yw'r rhai mwyaf tebygol o fod mewn perygl yn sgîl cyswllt amhriodol ar-lein.

Defnyddio'r Rhyngwrwyd i Gyfoethogi'r Dysgu

Mae'r defnydd a wneir o'r Rhyngwrwyd yn yr ysgol gan fwyaf yn ddiogel, yn ateb y diben ac yn fuddiol i ddysgwyr. Serch hynny, mae elfen o risg bob amser, gall hyd yn oed chwiliad cwbl ddiniwed arwain o bryd i'w gilydd at gysylltiadau i gynnwys ar gyfer oedolion neu luniau treisgar. Gyda'r cynnydd enfawr yn y defnydd o'r Rhyngwrwyd yn yr ysgol mae'r peryglon hyn yn cynyddu ar eu canfed. Serch hynny, mae nifer o athrawon o'r farn bod y llwyth enfawr o ddeunydd amherthnasol, annealladwy a ddaw i'r fei gan chwiliadau ar y Rhyngwrwyd hyd yn oed yn fwy o broblem.

Y perygl mwyaf i'r disgyblion yw dod ar draws deunydd amhriodol yn ddiarwybod. Mae cysylltiad cyflum a'r we yn golygu y gall delweddau amhriodol ymddangos mewn eiliad. Gall plant yn ddiniwed ddilyn cyfres o gysylltiadau i gynnwys annymunol.

Mewn sefyllfa o'r fath dylid dilyn y camau canlynol;

- Cau neu leihau'r ddelwedd neu ffenestr yn syth.
- Peidiwch â cheisio logio i ffwrdd.
- Os yw'r disgyblion wedi gweld y we-dudalen, siaradwch gyda hwy am yr hyn sydd wedi digwydd, a cheisiwch dawelu eu meddwl.
- Rhannwch y digwyddiad gyda pherson dynodeig amddiffyn plant yr ysgol all ymchwilio i hanes i safle dan sylw ac i'r modd y daeth y disgybl i fod yno.

Oherwydd y peryglon dylai disgyblion gael eu goruchwylio drwy'r adeg wrth ddefnyddio'r Rhyngwrwyd. Dylai pob aelod o staff fod yn ymwybodol bod cyfrifiaduron fel arfer ar-lein drwy'r adeg unwaith y bydd cyfrifiadur wedi'i logio ymlaen.

Peiriannau Chwilio

Rydym yn cymhell athrawon i ddefnyddio peiriannau chwilio Google neu Bing.

Mae mesurau llym o hidlo wedi eu gosod ar rywdwaith yr ysgol mewn cydweithrediad a'r adran TGCh yr awdurdod.

Mae chwilio am ddelweddau yn arbennig o beryglus. Drwy baratoi o flaen llaw gellir sicrhau nad oes angen i ddisgyblion chwilio a llawrlwytho delweddau, cyn belled â bod oedolyn yn llawrlwytho'r delweddau cyn y gwersi a'u storio mewn ffolder a rennir. Fel arall, gall athrawon ddefnyddio llyfrgell clipart Microsoft, sy'n ychwanegu delweddau sydd wedi'u llawrlwytho yn awtomatig i Clipart: <http://office.microsoft.com/clipart/>

Gall offer megis picsearch.com fod yn ddefnyddiol i leihau'r risg sy'n gysylltiedig â chwilio am ddelweddau. Mae porwr delweddau wedi'i dagio megis flickr.com yn hwyl i'w ymchwilio. Y perygl yw bod rhai o'r porwyr hyn yn derbyn allweddeiriau amhriodol. Mae'r rhain yn ddefnyddiol i athrawon, ond ni allwn bellach argymhell bod disgyblion yn eu defnyddio. Rhaid peidio â storio cysylltiadau megis hwn yn y ffolder 'Favorites' sydd ar gael i'r disgyblion.

Serch hynny, noder nad yw unrhyw beiriant chwilio â hidlwr yn gwbl ddiogel.

Gwybodaeth am System Ddiogelwch

- System ddiogelwch yr ysgol yn cael ei adolygu yn aml.
- Amddiffyniad firws yn cael ei ddiweddarau yn aml.
- Strategaethau diogelwch yn cael eu trafod gyda'r Awdurdod Lleol.

Cynllunio'r cwricwlwm

Mae cynllunio da a pharatoi yn anhraethol bwysig er mwyn sicrhau man cychwyn diogel ar gyfer datblygu sgiliau a strategaethau chwilio'r We. Gellir cynllunio tasgau nad oes angen peiriant chwilio'r We ar eu cyfer.

Os mai'r nod yw addysgu sgiliau chwilio, mae BBC Ysgolion yn cynnig amgylchedd diogel. Mae'r blwch chwilio yn cyfyngu'r chwilio i safle ysgolion y BBC yn awtomatig. Nid oes dim i nodi'r amrediad oedran, ond gall disgyblion farnu pa mor ddarllenadwy yw'r deunydd oddi wrth yr enghraifft o godir gan y chwiliad www.bbc.co.uk/schools. Yn bwysicach fyth, gall disgyblion ddysgu sgiliau megis dewis allweddair i gyfyngu'r chwiliadau, a gwerthuso'r ansawdd a pha mor berthnasol yw'r deunydd.

E-Bost

Caniateir y disgyblion i ddefnyddio cyfrifon e-bost yr ysgol yn unig. Dylai'r disgyblion hysbysu'r athro/wes yn syth os yw'n derbyn e-bost sarhaus.

Dysgir y disgyblion i beidio â datgelu gwybodaeth bersonol am eu hunain, eraill na threfnu i gwrdd ag unrhyw un heb ganiatâd penodol. Dysgir y disgyblion i beidio ag agor unrhyw e-bost neu atodyn amheus. Ni chaniateir blaenyrro llythyr cadwyn.

Addysgu e-Ddiogelwch

Mae'r Rhyngwrwd bellach yn rhan annatod o fywyd plant, doed a ddelo. Yn ffodus, mae modd i ddysgwyr gael budd o gyfathrebu ar-lein gyda'u cyfoedion, a hynny yn ddiogel i bob pwrpas.

Mae safle'r BBC Chat Guide <http://www.bbc.co.uk/chatguide> yn cynnwys amrywiaeth o becynnau addysgu wedi'u cynllunio'n ofalus ar gyfer CA3. Mae gêmiau a chynghor yma ar gyfer plant a phobl ifainc, a llyfryn i rieni ar ChatGuide y gellir ei lawrlwytho.

Hefyd mae amrediad o ddeunyddiau ar gael gan sefydliadau megis Wisekids, ChildNet a CEOP.

E-ddiogelwch ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol

Cymerir yn ganiataol bod plant yn deall ac yn dilyn trefn "diogelwch". Rhaid i ddisgyblion ddeall bod rhaid iddynt ddilyn y rheolau a roddir iddynt. Mae angen i ddisgyblion ddysgu rheolau diogelwch mewn modd nad yw'n codi ofn arnynt ac sy'n rhoi hyder iddynt beth i'w wneud mewn amgylchiadau arbennig. Mae angen i ddisgyblion ddeall y bydd rhai rheolau yn newid ac yn datblygu wrth iddynt fynd yn hŷn.

Mae angen i ddisgyblion ddysgu sut i ddefnyddio strategaethau fydd yn eu helpu i osgoi rhai "risgiau" a bod angen iddynt gynllunio ymlaen llaw.

Mae rhai agweddau o'r uchod sy'n arbennig o heriol i ddisgyblion sydd ag anghenion ychwanegol a phlant a all yn ein barn ni fod yn agored i niwed yn y cyd-destun hwn o ddysgu. Bydd gan bob disgybl ei anghenion ei hun fydd yn codi nifer o gwestiynau wrth addysgu e-ddiogelwch, ond ymhlith rhai o'r anawsterau mwyaf cyffredin fydd y canlynol:

- Maent o bosibl yn dal i ddatblygu eu dealltwriaeth gymdeithasol o ddiogelwch ac o'r herwydd yn gallu dilyn strategaethau a ddefnyddir gyda phlant ifancach yn well
- Maent yn debygol o gael anhawster i gymhwyso'r un rheolau mewn gwahanol sefyllfaoedd
- Mae'r mwyafrif o egwyddorion diogelwch yn dibynnu ar allu'r plant i egluro'r hyn sydd wedi digwydd neu i ofyn am gymorth
- Bydd rhai plant o bosibl yn ei chael yn anodd cofio ac yn anodd dysgu drwy brofiad.

Bydd yr ysgol yn ystyried eu polisi e-ddiogelwch mewn perthynas ag addasiadau penodol fyddai angen eu gwneud o bosibl ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion. Hefyd byddi Cydgysylltwyr AAA yn cydgysylltu'r cyngor rhwng arbenigwyr TGCh a staff ategol. Gall hyn fod ar ffurf strategaethau sy'n canolbwyntio ar y plentyn y gellid eu defnyddio gyda phlentyn sydd ag anghenion ychwanegol ac a fyddai ar gael i bob aelod o staff sy'n defnyddio'r Rhyngwrwd gyda'r plentyn hwnnw. Fel arall, gallai dulliau'r ysgol gyfan gymryd strategaethau i ystyriaeth fyddai'n ategu'r anghenion, h.y. dewisiadau penodol o gymorth gweledol i atgoffa'r disgyblion o'r rheolau.

Defnyddio technolegau newydd mewn addysg

Dylid archwilio technolegau newydd i weld yn union beth yw eu budd addysgol, a gwneud asesiad risg cyn y caniateir eu defnyddio yn yr ysgol. Gellir defnyddio amrywiaeth eang o dechnolegau newydd a chyfleoedd dysgu gan gynnwys:

- Ffonau symudol â phŵer cyfrifiadur y gellir eu cysylltu â'r Rhyngwrwd, Bluetooth a chyswllt isgoch a camera.
- Amgylcheddau dysgu newydd megis Moodle a llwyfannau dysgu eraill
- Sgiliau meddwl a gaiff eu herio gan gêmiau ac efelychiadau
- Llais a negeseua Rhyngwrwd megis Skype a chyswllt IWB.
- Adrodd stori yn ddigidol sy'n golygu meddwl yn annibynnol a hunan-gymhellant
- Podledu, darlledu a recordio gwersi
- Fideo digidol

Yr hyn sy'n bwysig yw cyfuno gallu arbrolfol ein pobl ifanc gyda doethineb athrawon i ddatblygu defnydd priodol, effeithiol a diogel mewn addysgu a dysgu.

Ymateb i ddigwyddiad sy'n peri pryder

Mae technolegau'r Rhyngwrwd a chyfathrebu electronig yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc ehangu eu profiadau dysgu a datblygu'u gallu i fod yn greadigol yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol. Serch hynny, mae'n bwysig cofio yn ogystal y peryglon sy'n gysylltiedig â'r modd y gellir defnyddio'r technolegau hyn.

Dylai cydnabod a cheisio datblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc wrth gyfathrebu a defnyddio'r technolegau hyn yn briodol, tra'n cadw'n ddiogel, a dangos parch tuag at eraill.

Mae'r risgiau hyn i e-ddiogelwch yn codi oherwydd bod pobl yn gweithredu'n amhriodol neu hyd yn oed yn anghyfreithlon. Rhaid delio ag unrhyw fater a all godi ar lefel bersonol. Athrawon yw llinell flaen yr amddiffyn; hwy sy'n arsylwi ymddygiad y disgyblion ac mae hynny'n hanfodol o ran canfod perygl i ddisgyblion ac o ran datblygu ymddiriedaeth fel bod materion yn derbyn sylw. Bydd digwyddiadau yn amrywio o'r drygioni neu weithred ddifeddwl i weithred anghyfreithlon a gynlluniwyd yn ofalus.

Bydd yr adran hon yn gymorth i'r staff benderfynu pa gamau i'w cymryd a pha bryd i roi gwybod am ddigwyddiad sy'n peri pryder i'r person sydd â chyfrifoldeb am Ddiogelu Plant neu e-Ddiogelwch o fewn yr ysgol. Yn dilyn ymgynghori â'r person dynodedig amddiffyn plant gellir cyfeirio materion wedyn at Swyddog yr Awdurdod ar Ddiogelu Plant neu at yr Heddlu os bernir bod angen hynny.

Beth mae cyfathrebu electronig yn ei gynnwys?

- Cyfryngau cydweithredu ar y Rhyngwrwd: safleoedd rhwydweithio cymdeithasol a gwe-logiau (blogiau)
- Ymchwil ar y Rhyngwrwd: gwefannau, peiriannau chwilio a phorwyr gwefan
- Ffonau symudol a thabledi cyfrifiadurol
- Cyfathrebu ar y Rhyngwrwd: e-bost a negeseua sydyn
- Gwe-gamerâu a fideogynadleda
- Consolau gêmiau diwyfr

Cyfrifoldebau'r ysgol

Gan fod e-Ddiogelwch yn gysyniad gymharol newydd ac yn cwmpasu cryn dipyn mwy na defnyddio'r rhyngwyd yn unig, byddai crynodeb o gyfrifoldebau'r ysgol o ran e-ddiogelwch yn ddefnyddiol. Dylai'r rhestr hon fod o gymorth i ddatblygu dull effeithiol a gyd-drefnwyd o reoli materion e-Ddiogelwch.

Dylid ystyried y canlynol:

- Mae'r cydgysylltydd e-Ddiogelwch yn cynnal y Polisi e-Ddiogelwch, rheoli cymorth e-Ddiogelwch ac yn gwybod am yr ymgyrchoedd diweddaraf yn lleol ac yn genedlaethol i ennyn ymwybyddiaeth o e-ddiogelwch.
- Mae'r ysgol yn adolygu ei polisi yn rheolaidd a diwygio eu polisi yn flynyddol i sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn ystyried y technolegau diweddaraf.
- Mae'r ysgol yn archwilio eu systemau hidlo yn rheolaidd i sicrhau bod gwefannau amhriodol yn cael eu heithrio.
- I sicrhau bod disgyblion a staff yn cadw at y polisi cynhelir ymchwiliadau yn dilyn unrhyw achos o gamddefnyddio posibl.
- Mae e-Ddiogelwch yn rhan annatod o'r cwricwlwm mae pob disgybl yn gwybod sut mae defnyddio'r technolegau yn ddiogel ac yn gyfrifol. Mae disgyblion yn gwybod sut i reoli'r risgiau ar-lein a'u cadw i'r lleiafswm posibl, a sut i roi gwybod am unrhyw broblem sy'n codi.
- Mae gofyn blynyddol ar i rhieni lofnodi a dychwelyd ffurflen ganiatâd y Rheolau e-Ddiogelwch.
- Mae'r Polisi e-Ddiogelwch ar gael i bob aelod o staff, llywodraethwyr, rhieni ac ymwelwyr ar wefan yr ysgol.

Gweithredu a Chydymffurfio

Ni all unrhyw bolisi ddiogelu disgyblion os nad yw'r polisi hwnnw'n cael ei weithredu'n effeithiol. Mae'n hanfodol bod staff yn wylidwrus bob amser wrth gynllunio a goruchwylio profiadau TGCh priodol ac addysgol.

Ysgrifennu ac Adolygiad o'r Polisi

Mae'r polisi wedi cael ei gytuno gan yr uwch dîm rheoli ac wedi cael ei gymeradwyo gan y llywodraethwyr. Bydd yn cael ei adolygu yn flynyddol.

Dysgu ac Addysgu

Pwrpas defnydd o'r we o fewn ysgol yw codi safonau addysgiadol, i gefnogi gwaith proffesiynol y staff ac i wella systemau rheoli gwybodaeth a gweinyddiaeth yr ysgol.

Mae'r defnydd o'r we yn hanfodol i staff a disgyblion yr ysgol. Mae'n paratoi disgyblion ar gyfer gofynion datblygiad personol a gyrfaedd. Mae'n ofyniad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol (CC) ar gyfer TGCh ac yn rhan o ofynion pynciau eraill.

Ehangu dysgu drwy ddefnydd o'r we

Mae mynediad i'r we yn cael ei ddarparu gan Gyngor Gwynedd ac wedi ei gynllunio ar gyfer y disgyblion. Mae hyn yn golygu hidlo pethau sy'n addas i gynnwys ac oedran y disgyblion. Mae lefelau mynediad yn cael eu hadolygu i adlewyrchu gofynion cwricwlwm. Rhoddir cyfarwyddiadau pendant am ddefnydd o'r we i ddisgyblion.

Bydd y staff yn dewis safleoedd gwe addas, gan gymryd i ystyriaeth oedran ac aeddfedrwyd y disgyblion, ar gyfer cefnogi canlyniadau dysgu.

Mae'r disgyblion yn cael eu dysgu i gymryd cyfrifoldeb dros eu defnydd nhw o'r we.

Dysgir disgyblion sut i werthuso cynnwys gwybodaeth ar y we.

Dysgir disgyblion i wirio gwybodaeth y caent ar y we cyn ei dderbyn yn fanwl gywir. Dysgir y disgyblion i gydnabod y ffynhonnell o wybodaeth wrth ddefnyddio gwybodaeth o'r we ar gyfer defnydd eu hunain. Dysgir y disgyblion i fod yn ymwybodol y gall awdur e-bost neu daflen we beidio â bod y person maen nhw yn hawlio i fod. Anogir y disgyblion i ddweud wrth athro/wes yn syth os ydynt yn dod ar draws unrhyw ddefnydd sydd yn gwneud iddynt deimlo'n anghyffyrddus.

Cynnwys Cyhoeddedig a Safle We'r Ysgol

Mae safle we'r ysgol yn cydymffurfio gyda chanllawiau'r ysgol am gyhoeddiadau. Dysgir y disgyblion i ystyried eu cynulleidfa a phwrpas y gwaith y byddent yn ei gyhoeddi ar safle we'r ysgol. Disgwylir y gwaith i fod o safon uchel. Dylid bod y gwaith yn waith yr awdur yn unig neu fod caniatâd wedi ei dderbyn ar gyfer aildefnyddio gwaith eraill ac wedi ei nodi'n glir gydag enw perchennog yr hawlfraint.

Cyhoeddi gwaith disgyblion a delweddau o ddisgyblion

Ni ddylai lluniau adnabod disgyblion unigol. Bydd lluniau grŵp yn cael eu defnyddio gan fwyaf yn hytrach na lluniau mewn steil 'pasbort'.

Dim ond ar ôl derbyn caniatâd rhieni yn ysgrifenedig y bydd llun o'r disgybl yn cael ei roi ar y safle we.

Yr athrawon sydd yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod y disgyblion sydd yn y lluniau maent yn eu mewn llwytho i'r safle we'r ysgol gyda chaniatâd i fod ar safle we'r ysgol. Bydd rhestr wedi ei greu gan y cydlynnydd TGCh a'i adolygu yn aml.

Ni fydd lluniau o'r disgyblion yn cael eu cynnwys gydag enw'r disgybl. Ni ddylai unrhyw waith gan y disgyblion sydd yn defnyddio llun gael enw'r disgybl.

Manteisio ar y we yn Gymdeithasol a Chyhoeddiadau Personol

Nid ydym yn defnyddio unrhyw 'ystafelloedd trafod' ar hyn o bryd. Bydd unrhyw raglenni newydd yn cael eu profi yn drylwyr cyn bod y disgyblion yn cael mynediad.

Rheoli Hidlo

Mae'r ysgol yn cydweithio gyda rhieni, AALI, Y Cynulliad Cenedlaethol i Gymru, Athrawon a Darparrydd Gwasanaeth y We i wneud yn siŵr bod y systemau ar gyfer amddiffyn disgyblion yn cael ei adolygu a'i wella.

Os yw disgyblion neu staff yn darganfod safleoedd gwe anaddas mae angen nodi'r 'URL' (cyfeiriad y safle we) a'r cynnwys a'i adrodd i'r Darparrydd Gwasanaeth y We drwy'r Cydlynnydd TGCh.

Rheoli Cynhadledd Fidio a Defnydd o Gamera Gwe

Mae Cynadleddau Fidio yn defnyddio rhaglen wedi ei gymeradwyo, a disgwylir i'r disgyblion ddilyn Polisi Ymddygiad yr ysgol. Mae cynadleddau fidio yn cael eu cynnal mewn gwersi o dan oruchwyliaeth athrawon.

Rheoli Technolegau Newydd

Nid yw ffonau symudol i gael eu defnyddio yn yr ysgol gan ddisgyblion. Os oes angen dod ac un i'r ysgol mae angen iddo gael ei roi i'r ysgrifenyddes/ pennaeth i'w gadw yn saff peth cyntaf yn y bore. Mae gan yr athrawon hawl i dynnu ffon oddi ar unrhyw ddisgybl. Nid yw camerâu mewn ffonau symudol i gael eu defnyddio gan staff na disgyblion.

Dim ond camerâu ysgol sydd i gael eu defnyddio gan staff a disgyblion ar gyfer pwrpasau addysgiadol.

Os yw ymwelwyr eisiau tynnu lluniau mae'n rhaid iddynt ofyn caniatâd.

Amddiffyn Data Personol

Bydd data personol yn cael eu cofnodi, prosesu, trosglwyddo a'u gwneud ar gael fel gofynion y Ddeddf Amddiffyn Data 1998. Ni ddylai staff gadw gwybodaeth gyfrinachol ar gludydd cof os nad yw wedi ei amddiffyn yn dderbyniol.

Caniatáu Defnydd o'r We

Mae angen i bob aelod o staff ddarllen ac arwyddo 'Cod Ymddygiad Staff gyda TGCh' cyn defnyddio unrhyw ffynhonnell TGCh. Mae'r ysgol yn cadw record o bob staff a disgyblion sydd gyda mynediad i systemau TGCh yr ysgol. Disgwylir i rieni i arwyddo ffurflen ganiatâd i'w plentyn gael defnyddio'r we (Polisi Defnydd o'r We) Gofynnir i unrhyw berson nad yw'n cael eu cyflogi gan yr ysgol i ddarllen ac arwyddo taflen 'Defnydd Cymeradwy o Adnoddau TGCh' cyn cael caniatâd i gael mynediad i'r we o'r ysgol.

Asesu Risg

Mae'r ysgol yn cymryd camau rhesymol i atal mynediad i ddefnydd anaddas. Fodd bynnag, oherwydd natur a graddfa ryngwladol y we nid yw'n bosibl i warantu na fydd defnyddiau anaddas byth yn ymddangos ar gyfrifiadur sydd wedi ei gysylltu i systemau'r ysgol. Nid yw'r ysgol na Chyngor Gwynedd yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw ddefnydd sy'n cael eu hagor neu ganlyniadau o fynedfa i'r we. Mae polisi E-Ddiogelwch yr ysgol a'i ddefnydd yn cael ei fonitro a'i adolygu yn rheolaidd.

Delio gyda chwynion E-Ddiogelwch

Dylai unrhyw gwynion am gamddefnydd o'r we gael eu cyfeirio at y pennaeth. Dylai unrhyw gwynion am gamddefnydd gan staff gael eu cyfeirio at y pennaeth. Dylai unrhyw gwynion yn ymwneud ag amddiffyn plant gael eu trin yn unol â pholisi Amddiffyn Plant yr ysgol.

Polisi Cyfathrebu

Cyflwyno Polisi E-Ddiogelwch i'r disgyblion. Mae'r disgyblion yn cael eu hysbysu bod y rhwydwaith a'r we yn cael eu monitro a'u dilyn. Mae'r disgyblion yn derbyn gwersi E-Ddiogelwch ac yn cael eu hatgoffa yn gyson o ddiogelwch ar y we.

Cael cefnogaeth rhieni a gwarchodwyr

Nodir bob polisi e-ddiogelwch ar gael i rieni a gwarchodwyr ar gael ym Mhrosiectws yr Ysgol ac ar safle we'r ysgol. Mae cysylltiadau ar gael ar safle we'r ysgol i adnoddau e-ddiogelwch. Mae'r ysgol yn gofyn i rieni newydd arwyddo cytundeb i rieni am ddefnydd y we gan eu plentyn (f ei y nodir cynt).